Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cei Newydd
# Maes Yr Ysgol
# Cei Newydd
# Ceredigion
# SA45 9TE

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**
Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/06/2015**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd gymunedol a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Ceredigion yw Ysgol Gynradd Gymunedol Cei Newydd. Lleolir yr ysgol yng nghanol y pentref a gwasanaetha'r pentref ei hun a'r ardal wledig gyfagos. Diffinnir yr ysgol fel ysgol cyfrwng Saesneg ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Derbynnir plant i'r ysgol ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 100 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr ac fe'u haddysgir mewn pedwar dosbarth o oed cymysg. Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu'n arwyddocaol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Tua 11% o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd. Daw 10% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae 8 disgybl yn yr ysgol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 23% ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym mis Rhagfyr 2009. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2014, ond nid oedd yn bresennol adeg yr arolygiad. Mae'r pennaeth gweithredol ar secondiad o ysgol gyfagos ac yn ei swydd o ddechrau wythnos yr arolygiad. Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Cei Newydd yn 2014-2015 yw £3,143. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8,697 a'r lleiafswm yw £3,038. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Cei Newydd yn safle 46 o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â'u hoed â'u gallu
- Bod rhan fwyaf y disgyblion medrau siarad a gwrando da
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at oedolion a'u cyfoedion
- Bod llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith
- Bod sillafu ac atalnodi llawer o ddisgyblion yn gywir
- Bod llawer o wersi yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol
- Bod athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn gwneud sylwadau cadarnhaol

Fodd bynnag, nid yw:

- Nid yw deilliannau disgyblion yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg
- Nid yw safonau presenoldeb yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg
- Nid yw cyflwyniad gwaith disgyblion yn gyson dda
- Nid yw athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol
- Nid yw athrawon yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wella eu gwaith mewn ymateb i'w sylwadau

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd

- Bod y pennaeth wedi rhoi nifer o strategaethau a phrosesau gwerthfawr ar waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar godi safonau
- Bod y pennaeth a'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- Bod athrawon yn gwneud defnydd da o wybodaeth o brosesau hunanarfarnu i ddadansoddi perfformiad ac i bennu blaenoriaethau
- Bod diwylliant o wella yn yr ysgol
- Bod gallu'r corff llywodraethol i herio'r ysgol a gweithredu fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n dda
- Bod gan yr ysgol brosesau effeithiol ar gyfer gwella ansawdd

## Argymhellion

A1 Codi deilliannau disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2

A2 Gwella defnydd y disgyblion o'u medrau rhifedd ar draws y meysydd yn y Cyfnod Sylfaen

A3 Codi lefel presenoldeb

A4 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wella eu gwaith mewn ymateb i sylwadau athrawon

A5 Datblygu cyfrifoldebau arweinyddol aelodau'r staff

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion, wrth ddechrau'r ysgol, yn amrywio'n fawr, ac yn is na'r canolig yn gyffredinol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â'u hoed â'u gallu.

Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau siarad a gwrando da. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus i gwestiynau gan ddefnyddio geirfa briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar safbwyntiau eraill yn ystod trafodaethau grŵp ac yn ynganu'n glir, er enghraifft, wrth fynegi barn am nodweddion adroddiad papur newydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn trafod yr hyn y maent wedi'i ddarllen yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio strategaethau ffoneg yn effeithiol i ddarllen geiriau anghyfarwydd ac yn defnyddio cliwiau eraill ynglŷn â chyd-destun y llyfr i wella'u dealltwriaeth a rhugldеr yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu'u hysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu disgrifiadau a cherddi sy'n cynnal diddordeb y darllenydd. Er enghraifft, maent yn creu disgrifiad o Gei Newydd gan gyfeirio at yr holl atyniadau a phethau o ddiddordeb i ymwelwyr. Yn gyffredinol, mae sillafu ac atalnodi llawer o ddisgyblion yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn trafod y cymeriadau a'r cynllun yn eu llyfrau'n fanwl. Mae'r medrau ganddynt i'w helpu i ddarllen gyda dealltwriaeth. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn datblygu'u medrau ymchwilio'n briodol ac yn bras ddarllen a sganio testun i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r mwyafrif yn defnyddio atalnodi, gramadeg a geirfa'n effeithiol i greu effaith ac i ddal sylw'r darllenydd yn gyson. Er enghraifft, mae llawer yn llwyddo i gyfleu'r teimlad o deithio ar long y Mimosa yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn cofnod dyddiadur. .

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn siarad yn hyderus am waith rhif. Maent yn hyderus wrth gyfrif fesul 2, 5 a 10 ac yn gallu haneru rhifau dau ddigid yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn ei chael hi'n anodd penderfynu pa weithrediad sydd angen ei ddefnyddio i ddatrys problem yn annibynnol. Nid yw rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r medrau a ddysgant mewn gwersi rhifedd ar yr un lefel ar draws y meysydd dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd i ddatrys problemau mathemategol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o fesur, siâp, gofod a thrin data. Maent yn datrys problemau bywyd go iawn sy'n gofyn am gymhwyso ystod o fedrau rhifedd. Er enghraifft, maent yn cynllunio amserlen ar gyfer coginio cinio Dydd Gŵyl Dewi ac yn cyfrifo cost prynu'r cynhwysion angenrheidiol.

Ar draws yr ysgol, nid yw cyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos balchder, ac mae diffyg gofal wrth gofnodi yn amharu ar gynnydd a chywirdeb ychydig o ddisgyblion mewn gwaith rhif.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg ac yn ymateb i orchmynion gyda dealltwriaeth. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn deall amrediad priodol o eiriau a brawddegau a gall y mwyafrif ofyn ac ateb cwestiynau syml yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau darllen ac ysgrifennu gwerthfawr. Fodd bynnag, nid oes hyder gan leiafrif i gyfranogi mewn sgyrsiau byr ynglŷn â phynciau bob dydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf dros yr un cyfnod.

Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch, dros y tair blynedd ddiwethaf wedi amrywio rhwng yr 25% isaf a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemateg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf ym mhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, mae cyflawniadau disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn well na disgyblion eraill ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae cyflawniadau disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim cystal neu'n well ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch.

Nid oes patrwm arwyddocaol dros amser o gymharu perfformiad bechgyn gyda pherfformiad merched.

**Lles: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n rhydd i droi at staff neu ffrindiau am gymorth pan fo'r angen. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar y we. Maent yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd a bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at oedolion a'u cyfoedion. Mae llawer yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Fodd bynnag, lle ceir diffyg her a rhediad yn y gwersi, mae ychydig o ddisgyblion yn tarfu ar waith eraill.

Mae'r cyngor ysgol, sydd hefyd yn cyfarfod fel cyngor eco, yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda chymuned yr ysgol, er enghraifft wrth gyd-drefnu Gŵyl Basg gyda'r gymdeithas rhieni ac athrawon. Maent yn creu posteri i rannu gwybodaeth am eu gwaith ac yn paratoi papur newydd

tymhorol sy’n cynnwys cyfraniadau gan ddisgyblion yr ysgol. Mae’r cyngor ysgol yn casglu syniadau gan ddisgyblion trwy’r ‘Amlen Syniadau’ yn effeithiol, a chaiff disgyblion fynegi unrhyw bryderon drwy’r ‘Blwch Becso’. Mewn ymateb i syniadau gan y cyngor ysgol, mae’r ysgol wedi sefydlu wal ddringo at ddefnydd disgyblion.

Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn darllen gyda disgyblion iau sydd yn datblygu ymdeimlad o barch a gofal yn effeithiol. Mae medrau entrepreneuriaeth y disgyblion yn datblygu’n dda, er enghraifft wrth ddylunio, creu a gwerthu bagiau siopa.

Am ddwy o’r tair blynedd ddiwethaf, mae canran presenoldeb disgyblion wedi bod yn is na’r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn cynllunio profiadau amrywiol sy’n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae’r cynllunio cynhwysfawr yn diwallu anghenion rhan fwyaf y ddisgyblion yn effeithiol ac yn sicrhau darpariaeth lwyddiannus ar gyfer dosbarthiadau oedran cymysg. Mae’r ysgol yn cynnig gweithgareddau allgyrsiol buddiol sy’n cyfoethogi profiadau’r disgyblion.

Mae’r ysgol yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer cymhwyso'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae’r cynllunio tymor byr yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac mae staff yn cipio’u diddordeb drwy wneud defnydd creadigol o gyfleusterau cymuned glan y môr fel adnodd dysgu. Er enghraifft, mae cyfleoedd amlwg i ddisgyblion ddatblygu’u medrau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn cyd-destun bywyd go iawn yn ymwneud â gweithgareddau dŵr, twristiaeth ac entrepreneuriaeth. Er hynny, nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau rhif ar draws y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen wedi datblygu i’r un graddau.

Mae’r cynllunio a’r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig a’r iaith Gymraeg yn gadarn. Trwy astudio hanes lleol, a hanesion Cymry enwog, mae dealltwriaeth y disgyblion o’u hardal leol a hanes a diwylliant Cymru yn datblygu’n effeithiol. Er enghraifft, arweiniodd astudiaeth ysgol gyfan o fywyd a gwaith Dewi Sant at ymweliad â Llanddewi Brefi a gorymdaith trwy Gei Newydd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae gwaith y cyngor eco yn cyfrannu’n addas at ddealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad y disgyblion i annog y gymuned leol i gasglu ac ailgylchu dillad. Mae cyswllt yr ysgol ag ysgol ym Mhatagonia yn datblygu dealltwriaeth dda ymysg disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang, wrth iddynt gymharu a gwrthgyferbynnu nodweddion a bywyd yn y ddwy wlad.

**Addysgu: Digonol**

Mae diwylliant o gydweithredu rhwng athrawon a chynorthwywyr dosbarth ar draws yr ysgol, ac mae pob un o’r staff yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau.

Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae disgwyliadau athrawon yn glir ac maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol y disgyblion. Maent yn cynnal diddordeb bron pob disgybl, nid yn unig yn y pwnc a addysgir ond hefyd wrth ddatblygu'u llythrennedd a'u rhifedd.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, lle nad yw'r addysgu cystal, mae diffyg rhediad yn y gwersi ac nid yw athrawon yn cynnal diddordeb disgyblion. Mae athrawon yn arwain gwersi'n rhy aml ac nid ydynt bob amser yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. O ganlyniad, nid yw disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn cyflawni safonau digon uchel bob tro.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn gwneud sylwadau cadarnhaol. Mae'r marcio yn dangos i ddisgyblion lle gallent wella, ond nid yw athrawon bob amser yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn ymateb i'r cyngor a roddwyd.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefn newydd i olrhain cynnydd disgyblion yn ddiweddar. Mae athrawon yn cofnodi canlyniadau asesiadau a thasgau penodol pob disgybl yn drefnus. Serch hynny, mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn ar y cynllunio ac ar safonau disgyblion.

Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r rhieni yn cynnig gwybodaeth glir am gyflawniadau a chynnydd eu plant ac yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau a gweithdrefnau addas yn sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer iechyd a lles. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gwersi ynglŷn â byw'n iach yn rhan annatod o'r cwricwlwm; er enghraifft, mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gallu adnabod a chynllunio bocs bwyd iachus. Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i fod yn weithgar yn ystod yr wythnos ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn hyrwyddo Clwb Cŵl sy'n cynnig cyfleoedd corfforol i ddisgyblion yn ystod amseroedd chwarae.

Mae staff yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn gyson drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a phrofiadau gwerthfawr eraill, gan gynnwys gweithdai chwaraeon i hybu goddefgarwch hiliol a dathliadau wythnos gwrth-fwlio.

Mae adnabyddiaeth gynnar o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn sicrhau darpariaeth effeithiol ar eu cyfer. Mae'r ysgol yn cynnig grwpiau ymyrraeth lwyddiannus a pharatoi cynlluniau addysg unigol gyda thargedau clir a gytunwyd gyda'r disgyblion a'r rhieni. Caiff y cynlluniau a'r ymyrraeth hyn eu hadolygu'n gyson ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol cymdeithasol a lles i gefnogi'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol strategaethau addas i fynd i'r afael â bwlio ac i reoli ymddygiad disgyblion, ond nid ydynt yn cael eu gweithredu yn ddigon cyson i sicrhau ymroddiad llwyr bob disgybl ymhob wers. Mae strategaethau clir ar gyfer hyrwyddo presenoldeb

wedi'u mabwysiadu'n ddiweddar, gan gynnwys defnydd effeithiol o wasanaeth swyddog cynhwysiant yr awdurdod lleol. Er hynny, nid yw'r ddarpariaeth wedi arwain at welliant nodedig o ran lefelau presenoldeb hyd yn hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos teuluol yn bodoli yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn mwynhau eu profiadau addysgol. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar. Mae gan bob disgybl fynediad cyfartal i holl agweddau darpariaeth yr ysgol a'r un cyfleoedd i gymryd rhan ym mywyd llawn yr ysgol.

Gwneir defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i ychwanegu at y cwricwlwm a'i gyfoethogi. Er enghraifft, mewn cydweithrediad â'r cyngor cymuned, defnyddir y goedwig gerllaw i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i astudio cynefinoedd. Mae trefniadau priodol i ddisgyblion barchu, dathlu a dysgu am amrywiaeth; er enghraifft, maent yn astudio crefyddau a diwylliannau eraill trwy waith thema, yn gyson.

Er bod yr adeilad yn hen ac yn gyfyng mewn mannau, mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda a gwneir y defnydd gorau o'r holl gyfleusterau sydd ar gael i gefnogi'r dysgu. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar. Mae'r arddangosfeydd yn symbylus, ac yn ysgogi'r dysgu yn effeithiol. Ceir adnoddau pwrpasol ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Caiff yr ardal tu allan ei defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi'r profiadau ar gyfer disgyblion ac mae'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau ar gyfer hylendid yn bodloni gofynion statudol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Er nad yw'n bresennol yn yr ysgol adeg yr arolygiad, mae'r pennaeth wedi llwyddo i gyfleu ei gweledigaeth, sy'n seiliedig ar hyrwyddo dysgu gydol oes, i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn effeithiol. Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi rhoi nifer o strategaethau a phrosesau gwerthfawr ar waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar godi safonau. Mae'n rhy gynnar i weld gwir effaith y gyfundrefn arweinyddiaeth hon ar ddeilliannau disgyblion.

Mae cefnogaeth arbennig wedi ei rhoi i'r pennaeth gweithredol mewn cyfnod byr, ac mae hithau'n llwyddo'n dda i gynnal yr ysgol â'i gwaith. Mae'r pennaeth a holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn gwneud defnydd da o wybodaeth o brosesau hunanarfarnu i ddadansoddi perfformiad ac i bennu blaenoriaethau. Mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad cyfredol, ac mae eu cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Mae rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol a pherfformiad disgyblion. Mae diwylliant o wella yn yr ysgol sy'n heriol, ond yn gefnogol. Mae'r athrawon i gyd yn cymryd rôl gynyddol mewn monitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau gwaith y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes diwylliant tryloyw

o atebolrwydd wedi'i ddatblygu i ddal arweinyddiaeth ar bob lefel i gyfri.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael sylw da yng nghynlluniau gwaith yr ysgol ac mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn cymryd rôl strategol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Trwy ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, monitro'r addysgu a chraffu ar lyfrau, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o safonau'r ysgol. Maent yn derbyn adroddiadau manwl am berfformiad yr ysgol gan y pennaeth ac, o ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu ac ysgolion tebyg yn datblygu'n dda. Mae eu gallu i herio'r ysgol a gweithredu fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol ar gyfer gwella ansawdd. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o wybodaeth uniongyrchol i gefnogi'u dadansoddiad o berfformiad yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data, gwrando ar ddysgwyr, arsylwi gwersi, craffu ar waith, casglu barnau rhieni ac adolygiadau treiddgar gan asiantaethau allanol. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunan arfarnu yn gryno ac yn cyfleu darlun clir o gryfderau a'r agweddau penodol sydd angen eu gwella.

Mae gan yr holl athrawon rôl weithredol yn y broses hunan arfarnu. Mae ganddynt ymwybyddiaeth addas o ddata perfformiad ac o gynnydd disgyblion. Maent yn cydweithio'n dda ac yn dod i farnau cytûn. Mae'r broses hunan arfarnu wedi arwain at welliannau, er enghraifft wrth godi safon sillafu yn y Saesneg.

Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau'r broses hunan arfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae nifer y meysydd i'w gwella yn hylaw ac mae targedau'n canolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion. Mae strategaethau addas ar gyfer gwella wedi'u datblygu ynghyd â threfniadau monitro addas. Mae'r cynllun wedi'i gostio'n ofalus ac mae'r holl staff, ac aelodau'r corff llywodraethol, yn gwbl glir o ran eu cyfrifoldebau am roi'r cynllun ar waith. Er hynny, nid yw'r blaenoriaethau bob tro yn ddigon meintiol, sy'n amharu ar allu'r ysgol i fod yn ddigon trwyadl wrth fonitro cynnydd ar brydiau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod dda o bartneriaethau gan yr ysgol sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu disgyblion. Mae perthynas gadarn gyda'r rhieni. Mae'r ysgol yn eu cynnwys mewn gweithgareddau ysgol ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'w helpu i gynorthwyo â dysgu eu plentyn gartref, er enghraifft gweithdai llythrennedd a rhifedd. Trwy gyfrwng ffeiriau tymhorol a gweithgareddau eraill, mae'r rhieni yn cyfrannu cyllid sylweddol i'r ysgol. Caiff y gefnogaeth ariannol hon ei defnyddio'n bwrpasol ar gyfer darparu adnoddau ychwanegol ac ehangu'r profiadau ar gyfer y disgyblion. Yn flynyddol, cefnogir yr ysgol i ddarparu cyfres o sesiynau gweithgareddau dŵr i'r disgyblion ar lân y môr. O ganlyniad, mae disgyblion yn adnabod a pharchu yr ardal leol a'i hadnoddau yn dda.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n

rheolaidd tuag at wasanaethau yn y capel a’r eglwys.  Mae’r ysgol yn elwa’n fawr o’r cysylltiadau gyda’r bad achub a’r canolfan bywyd môr, a chyfoethogir lles disgyblion yn sgil y bartneriaeth â’r clwb bowlio a’r clwb pêl droed.

Mae’r ysgol yn cynnal partneriaethau cadarn gydag amryw o asiantaethau’r awdurdod lleol, a’r consortiwm.  Mae hyn yn cael effaith bositif ar bresenoldeb, lles a chyrhaeddiad disgyblion.  Mae ymweliadau monitro a her yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar strategaethau a phrosesau rheolaethol yr ysgol.  Cydweithia’r ysgol yn bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a’r ysgol uwchradd i safoni a chymedroli gwaith.  Mae holl athrawon yr ysgol yn rhan o’r broses hon.  O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’r safonau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol berthynas lwyddiannus gyda’r cylch meithrin sy’n sicrhau bod plant yn ymgartrefu’n gyflym wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae cysylltiadau cadarn â’r ddwy ysgol uwchradd lle bydd disgyblion yn trosglwyddo, ac mae trefniadau effeithiol yn eu lle i baratoi disgyblion at y cam nesaf yn eu haddysg.  Er enghraifft, mae’r disgyblion yn gweithio ar brosiect pontio yn nhymor yr haf ac yn dilyn y gwaith hwn yn eu tymor cyntaf yn yr ysgol uwchradd.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae digon o staff â chymwysterau addas gan yr ysgol ac mae’n gwneud defnydd effeithiol o’u harbenigedd i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen a’r Cwricwlwm Cenedlaethol.  Defnyddir staff cymorth yn dda i godi safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae’r ysgol yn ymateb i anghenion hyfforddi staff yn briodol trwy brosesau rheoli perfformiad, ac mae athrawon yn defnyddio’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol.  Mae hyfforddiant staff yn cefnogi blaenoriaethau’r ysgol.  Mae gan yr ysgol rwydwaith effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion y clwstwr, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion yn eu sillafu.

Mae’r corff llywodraethol a’r pennaeth yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus.  Er bod swm sylweddol wrth gefn ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol gynllun manwl i fynd i’r afael â’r gwarged yn y gyllideb.  Mae arweinwyr yn gwneud penderfyniadau cyllidol yn unol ag anghenion a blaenoriaethau'r ysgol ac yn sicrhau bod cyflenwad priodol o adnoddau ar gael, sy’n ymateb i anghenion y disgyblion.  Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o’r grant amddifadedd i godi safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion bregus.  Er enghraifft, mae’r ysgol yn sicrhau nad yw’r disgyblion hyn yn colli allan ar weithgareddau allgyrsiol.

O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672295 - YSGOL GYMUNEDOL CEI NEWYDD**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 86 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 13 | 8 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 76.9 | 75.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 8 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 75.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 25.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 76.9 | * | * |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 38.5 | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 8 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 76.9 | 75.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 61.5 | 25.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 8 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 76.9 | 87.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 23.1 | 37.5 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672295 - YSGOL GYMUNEDOL CEI NEWYDD**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 86 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 12 | 17 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.0 | 100.0 | 94.1 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 12 | 17 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 100.0 | 94.1 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 60.0 | 25.0 | 17.6 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 12 | 17 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 100.0 | 94.1 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 33.3 | 29.4 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 12 | 17 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 100.0 | 100.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 58.3 | 23.5 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 46 | 46<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 46 | 41<br>89%<br>92% | 5<br>11%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 46 | 41<br>89%<br>97% | 5<br>11%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 45 | 43<br>96%<br>97% | 2<br>4%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 46 | 41<br>89%<br>96% | 5<br>11%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 46 | 41<br>89%<br>96% | 5<br>11%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 46 | 44<br>96%<br>99% | 2<br>4%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 46 | 44<br>96%<br>98% | 2<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 45 | 41<br>91%<br>91% | 4<br>9%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 45 | 38<br>84%<br>95% | 7<br>16%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 45 | 15<br>33%<br>77% | 30<br>67%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 45 | 25<br>56%<br>84% | 20<br>44%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 32 | 18 | 10 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 56% | 31% | 9% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 32 | 20 | 10 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 62% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 32 | 21 | 11 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 32 | 21 | 6 | 2 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 66% | 19% | 6% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 32 | 14 | 12 | 1 | 1 | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 44% | 38% | 3% | 3% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 32 | 17 | 10 | 3 | 1 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 53% | 31% | 9% | 3% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 32 | 19 | 8 | 2 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 59% | 25% | 6% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 32 | 16 | 9 | 3 | 1 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 28% | 9% | 3% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 32 | 14 | 13 | 1 | 2 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 44% | 41% | 3% | 6% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 32 | 15 | 14 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 47% | 44% | 6% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 32 | 17 | 13 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 32 | 14 | 11 | 2 | 1 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 44% | 34% | 6% | 3% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 32 | 13 | 13 | 3 | 1 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 41% | 41% | 9% | 3% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 32 | 19 | 8 | 2 | 2 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 59% | 25% | 6% | 6% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 32 | 13 | 13 | 2 | 0 | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 41% | 41% | 6% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 31 | 15 | 12 | 2 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 48% | 39% | 6% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 28 | 11 | 5 | 2 | 1 | 9 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 39% | 18% | 7% | 4% | | |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 32 | 14 | 15 | 1 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 44% | 47% | 3% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 32 | 19 | 8 | 2 | 1 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 59% | 25% | 6% | 3% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Eifion Lloyd Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| Mrs Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Rhian Elin Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catryn Lawrence (Pennaeth dros dro) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.